26.03.2020

Tomos Hughes
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
01286 674622

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Cymunedau cefn gwlad Cymru yn gefn i ffermwyr sy'n wynebu her y coronafeirws

Fel pob diwydiant, mae'r sector amaethyddol yn wynebu ansicrwydd llwyr yn sgil lledaeniad y coronafeirws ac mae hynny'n achosi pryderon i ffermwyr ar draws Cymru. Ond mae cyflwynwyr cyfres S4C, **Ffermio**, yn mynnu bod rhwydwaith cefn gwlad yn mynd i fod yn gefn i amaethwyr nawr yn fwy nag erioed, wrth iddyn nhw barhau i gynhyrchu a chyflenwi bwyd mewn cyfnod hynod heriol.

Bydd y gyfres, sy'n cael ei ddarlledu am 9.00 pob nos Lun, yn parhau i ddod â'r straeon diweddaraf o'r sector ffermio wrth i'r diwydiant ddygymod â sgil effeithiau'r coronafeirws. I weld sut mae COVID-19 wedi effeithio arnyn nhw a'u cymunedau, cawsom sgwrs gyda dau o gyflwynwyr Ffermio, Daloni Metcalfe , sy'n rhedeg fferm, busnes gwyliau a siop yn ardal Tudweiliog, ac Alun Elidyr, sy'n ffermio ar gyrion pentref Rhydymain.

Dywedodd Daloni Metcalfe: "Mae'r sefyllfa yn hynod o ddyrys i bawb ac mae hynny wrth gwrs yn cynnwys amaethwyr. Adeg yma'r flwyddyn mae 'na lawer iawn o ffermwyr yn lloeau neu wyna, ac mae hi'n gyfnod caled ar y gorau. Ac mae hyn yn gwneud hi'n anoddach fyth.

"Mae ffermwyr yn y categori 'gweithwyr allweddol'. Mae ffermwyr yn gorfod parhau efo'u gwaith bob dydd, does dim dewis, ond mae'n rhaid bod yn ofalus iawn. Mae'r sefyllfa'n newid o awr i awr, hen sôn am o ddydd i ddydd. Ond mi ydw i'n ffyddiog bod gan ffermwyr Cymru'r gallu i addasu a gweithio efo'i gilydd yn wyneb y rhwystrau mwyaf caled."

Ychwanega Alun Elidyr: "Mae'r marchnadoedd yn chwalu nawr, mae pris ŵyn wedi gostwng tua phunt y kilo dros nos ers i wledydd fel Ffrainc, Sbaen a'r Eidal fynd ar *lockdown*, felly mi fydd hynny'n poeni rhai ffermwyr. Rydw i'n rheoli 500 o ddefaid, ryw 30 o wartheg a chwech o gŵn defaid, ac mi ydw i ar ben fy hun. Taswn i'n mynd yn sâl, pwy fysai yma i edrych ar ôl y gwartheg a defaid ar adeg dyngedfennol o wyna a lloeau? Unigrwydd yw'r un o'r pethau mwyaf sy'n mynd i daro dyn, ond 'da ni wedi hen arfer cyd-weithredu a gofalu am ein gilydd ac mae hynny'n gryf iawn ymysg y gymuned wledig.

"Fel enghraifft, mi ffoniodd na ddynes yn ei 70au sy'n byw yn gyfagos, yn dweud, 'dw i'n gwybod dy fod ti ar ben dy hun, ac os wyt ti angen, mi fedra'i gwcio pryd i ti a'i adael o ar waelod y ffordd unrhyw bryd, os wyt ti eisiau. Wel dyna i ti gymorth. Rhywun oedd wedi meddwl amdanaf ddigon i godi'r ffôn. Mae hynny'n gwneud i rywun deimlo'n arbennig o ddiogel o fewn y gymuned. Mae'r unedau yna ym mhobman ar draws Cymru."

A sut byddai'r feirws yn effeithio ar y gyfres Ffermio?

Ychwanega Daloni: "Da ni'n gweithio mewn tîm bach a 'da ni i gyd yn angerddol am yr hyn 'da ni'n wneud. Mae o'n ddyletswydd arnom ni i drosglwyddo'r newyddion diweddaraf am fywyd ffarmio a chefn gwlad i'n cynulleidfa. Mae pawb yn gefn i'w gilydd a 'da ni'r Cymry'n dda iawn yn gwneud hynny mewn cyfnod argyfwng."

Yn ogystal â'r gyfres, mae S4C a'r cwmni sy'n cynhyrchu Ffermio, Telesgop, wedi creu grŵp Fforwm Ffermio ar dudalen Facebook y rhaglen – tudalen breifat sydd wedi ei greu ar gyfer ffermwyr, er mwyn cysylltu â'i gilydd, cynnig cymorth i'w gilydd, rhannu ymarferion da a lluniau o'u ffermydd. Fe ymunodd dros 3,000 o aelodau i'r grŵp o fewn 48 awr o'i sefydlu, ac os ydych chi eisiau ymuno, ewch i facebook.com/ffermio.

**Ffermio**
**Nos Lun 6 Ebrill, 9.30**
**Isdeitlau Saesneg**
**Ar alw: S4C Clic, iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Telesgop ar gyfer S4C**

26.03.2020

Tomos Hughes
Cyswllt Contact
01286 674622

**Erthygl i'r Wasg** Press Release

# Rural communities providing vital support for farmers facing challenge of coronavirus

Like every industry, the agricultural sector is facing uncertainty as the spread of coronavirus continues to create problems for farmers across Wales. But the presenters of S4C's **Ffermio** are adamant that the networks within rural communities will provide more support for farmers than ever before as they continue to produce and provide food during a period of significant challenges.

The series, which is shown at 9.00pm every Monday evening, will continue to bring the latest stories from the farming sector and air the issues that affect farmers across Wales. To get their perspective on how COVID-19 has affected them and their communities, we spoke to two of Ffermio's presenters, Daloni Metcalfe, who owns a farm, holiday business and shop near Tudweiliog, and Alun Elidyr, who owns a farm near the village of Rhydymain.

Daloni Metcalfe said: "The situation is very complicated for everyone and that of course includes farmers. Farmers are lambing and calving this time of year and it's tough at the best of times, and this makes it even tougher.

"Farmers are classed as key workers. Farms must continue with their work every day, they have no choice, but they need to be very careful. The situation is changing hour-by-hour, day-by-day. But I have complete faith in the ability of Welsh farmers to adapt and work together to confront these extremely challenging conditions.

Alun Elidyr added: "The markets are collapsing now, the price of lamb dropped by a pound per kilo after countries like France, Spain and Italy went on lockdown, so that will worry some. I own 500 sheep, around 30 cows and six sheepdogs, and I am by myself. If I got ill, who would be here to look after these animals at such an important time during the lambing and calving season? Loneliness is one of the biggest things that we face, but we are used to co-operating and looking after each other and that togetherness remains very strong in the rural community.

"For example, a lady in her seventies, who lives nearby, phoned me the other day, and she said: 'I know you're alone and if you need, I can cook you a meal and leave it at the bottom of the lane, any time.' That's what you call support. Someone who was thoughtful enough to pick up the phone. That makes me feel incredibly safe in this community. These unites are everywhere across Wales."

And how will the virus affect the series, Ffermio?

Daloni added: "We're a small team and we are all passionate about what we do. It's our duty to share the latest news about the farming world with our audience. Everyone supports each other and the Welsh are very good at supporting each other during times of emergency. "

As well as the series, S4C and Telesgop, the company which produces Ffermio, have created a community called, Fforwm Ffermio on the Ffermio Facebook page – a private forum where farmers can offer support and advice to each other, share best practice and photos. Over 3,000 people joined within 48 hours of the forum being created, and if you're interested in joining, go to facebook.com/ffermio.

**Ffermio**
**Monday 6 April, 9.00**
**English subtitles available**
**On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms**
**A Telesgop production for S4C**